

PWY BIAU'R HAWL I'R TIR HWN?

Anerchiad i Rali Glyndwr, Aberaeron: Medi 14 2002

Mae'n braf cael bod mewn man lle nad oes drawdod pysgod marw. Oherwydd ble bynnag ewch chi yng Nghymru heddiw mae arogl pysgod marw. Yn wir, ble bynnag ewch chi yn y byd heddiw mae arogl pysgod marw. Y pysgod marw sy'n mynd gyda'r llif.

Oherwydd mae yna lifeiriant dinistriol yn sgubo drwy'r byd heddiw sy'n gyfuniad o rym cyfryngau torfol Eingl-Americanaidd a grym cyfalaf sy'n lladd ieithoedd a phobloedd ymhob man. Diolch i Dafydd ac Angharad am ddangos i ni sut mae brwydro yn erbyn y llif - sut mae peidio a bod yn bysgod marw yn mynd gyda'r llif.

Ydych chi'n gallu 'ngweld i? Chi'n siwr? Achos rwy'n berson anweledig sy'n perthyn i bobl anweledig. Dy'n ni y bobl Gymraeg eu hiaith sy wedi byw ar y tir hwn ers dros chwe mil o flynyddoedd ddim yn bod. Pan ddaw hi'n fater o agwedd Cyngor Sir Ceredigion at gynllunio dyw siaradwyr Gymraeg a'u cymunedau ddim yn bod o gwbl.



Wrth gwrs rhagfarn hiliol a gormes sy'n gyfrifol am y dallineb hwn. Ond dwy' i ddim yn poeni - yn wir rwy'n ymfalchio mod i'n perthyn i bobl anweledig - yn union fel mae lleiafrifoedd a thlodion a gorthrymedig y byd yma'n anweledig.

Mae 6,000 o ieithoedd yn y byd. Ond mae un yn marw bob pythefnos. A chyn hir bydd y broses yn cyflymu - bydd un yn marw bob wythnos.

Pam mae'r ieithoedd hyn yn marw?

Mae dau reswm pam mae ieithoedd yn marw. Y rheswm cyntaf yw lledaeniad yr iaith a'r diwylliant torfol Eingl-Americanaidd. Mae'r cyfryngau torfol Eingl-Americanaidd wedi creu math newydd o ormes sef Ymerodraeth Newydd yr Iaith Saesneg. Mae'r Ymerodraeth hon yn prysur ddifa pob iaith a diwylliant arall ac yn creu byd torfol unffurf uniaith.

Un a fu'n llygad-dyst i hyn yw'r ffotograffydd o Gymro y bu ei luniau yn gymorth i roi diwedd ar y rhyfel yn Fietnam, sef Philip Jones Griffiths. Meddai

Philip Jones Griffiths, "Mae lloeren Murdoch eisoes wedi dechrau gweddnewid cymdeithas yn India. Mae ymennydd pobl yn cael ei biclo'n electronig - does dim rhaid i neb wau, canu, dawnio na hyd yn oed siarad pan fydd yr opera sebon yn bwrw'r lloeren."

Mae un rhan o dair o boblogaeth y byd bellach yn medru darllen ac ysgrifennu Saesneg - dau biliwn o bobl.



Beth sy'n mynd i golli pan gollir iaith? Pan fydd pobl yn colli iaith maen nhw hefyd yn colli'r peth mwyaf gwerthfawr ar wyneb daear - sef eu diwylliant. Diwylliant yw storfa doethineb pobl, storfa a grewyd gan brofiad o gyd-fyw y bobl hynny dros y canrifoedd. Mae colli iaith yn golygu colli'r gwerthoedd a'r canllawiau anweledig ar gyfer byw sy'n fewnadeiladol mewn iaith.

Rydyn ni yma i arbed y gwerthfawrocaf o holl greadigaethau dyn rhag cael ei golli - ein gorffennol ysbrydol.

Wrth gwrs cyn y medrwch chi drosglwyddo diwylliant o un genhedlaeth i'r llall mae rhaid i chi gael cyfanrwydd cylch cymdeithas ac mae'r gymdeithas honno wedi ei gwreiddio wrth droedle neu ddarn o dir arbennig. Os symudwch chi'r bobl a thorri cylch cymdeithas mae'r cyfan yn mynd i golli.

A dyma ni wedi dod at ail reswm dros farwolaeth ieithoedd - sef **diwreiddiad pobloedd o'u cynefin**. Ac mae hyn yn digwydd ymhob man dros y byd. Gwrandewch ar ddisgrifiad Philip Jones Griffiths - "**Mae gwledydd diwydiannol a datblygedig y byd yn cyflawni hil-laddiad ar bobloedd eraill y byd drwy yrru gwerinwyr o'u tiroedd, drwy wrbaneiddio cymdeithas a gosod arnyn nhw ddiwylliant defnyddwyr unffurf.**"

Does dim angen dadleuon cymhleth ac athronyddol i esbonio pam rydyn ni yma heddiw. Mae'r peth yn syml ac mae modd ei ddweud yn syml fel y gwnaeth un o lwyth y Yanomani o fforest yr Amason yn Brasil pan ddywedodd, "**Rwy eisiau byw lle rwy'n perthyn - ar fy nhir fy hun.**"

Mae diwreiddio a dadleoli yn digwydd nid yn unig i lwythi brodorol ond i werinoedd pob gwlad. Mae'n digwydd, yn gudd a heb i ni sylweddoli, o fewn gwledydd datblygedig y byd. Mae'r Wladwriaeth Ganolog, y cwmnïau cyfalafol

a chyfoethogion yn diwreiddio a dadleoli pobl yn enw elw a chynnydd gan droi gwerinoedd yn broletariad diwreiddiau.

Wrth gwrs ym mhob gwlad mae gyda chi fiwrocratiaid sy'n fodlon cyfiawnhau'r diwreiddio a'i alw'n gynnydd a Grym y Farchnad. Fel y dywedodd un gwr doeth o Geredigion, "What's wrong with making money?"



Fe fyddai llawer yn dadlau nad oes dim o'i le bod dyn cyfoethog o dde ddwyrain Lloegr yn dod i ardal Gymraeg i brynu ty - mater o lwc yw bod arian ganddo ef a bod y trigolion brodorol yn dlawd. Ond rydyn ni'n dweud fod grym y farchnad yn ormes a bod yna ystyriaethau pwysicach nag arian.

Rhaid i ni ddatgan yn glir nad yw hi'n iawn fod unigolion cyfoethog o'r tu allan yn medru gyrru'r Nuba yn y Sudan o'u tiroedd er mwyn creu ffermydd anferthol cyfalafol i wneud elw cyflym.

Dyw hi ddim yn iawn fod unigolion cyfoethog a chwmnïau cyfalafol o'r tu allan yn dod i fforestydd yr Amason yn Brasil er mwyn torri'r coedwigoedd gan yrru'r trigolion brodorol o'u cartrefi.

Dyw hi ddim yn iawn chwaith fod cyfoethogion Lloegr yn medru gyrru gwerin dlawd Gwynedd a Phowys a Cheredigion o'u pentrefi drwy rym arian a chyfalaf.

Yr un broses afiach sydd ar waith - sef grym arian yn datgan mai dyma'r unig ffon fesur ac nad yw tir a throedle i bobl ar gyfer eu hiaith a'u diwylliant yn bwysig.

Mae Banc Barclays newydd gyhoeddi arolwg o gyfartaledd cyflogau yng Nghymru a Lloegr sef 170 o ardaloedd. Pwy sy ar y brig gyda'r cyflogau brasaf? Kensington a Chelsea £36,493, wedyn Westminster, Richmond upon Thames, Camden, Windsor a Maidenhead.

A phwy chi'n feddwl sy ar waelod y tabl gyda'r cyflogau isaf - yr ardaloedd tlotaf? ie, yn yr 20 isaf y mae'r broydd Cymraeg - Powys, Ceredigion, Gwynedd. Mae'r cyfartaledd cyflog yng Ngheredigion yn £17,684 a Gwynedd yn is fyth gyda £16,986. Ystyr hyn yw na fedr gwerin bobl Ceredigion, Powys a Gwynedd fyth gystadlu yn y farchnad dai gwbl annheg a gormesol.

Faint o dai ym mhentref Felinfach y gall person ifanc o'r ardal eu prynu ar forgais wedi ei seilio ar gyflog o £17,684? Dim un.

Pan fod dim un ty yn y sir o fewn cyraedd y mwyafriif o bobl Ceredigion mae'n hen bryd i swyddogion cynllunio Ceredigion feddwl yn ddwys ac yn ddifrifol beth yw ystyr cyfiawnder cymdeithasol a sut y medran nhw ddiogelu eu cymunedau brodorol rhag diwreiddiad a goresgyniad y Llyfr Sic.

Fe gyflawnodd Dafydd ac Angharad weithred symbolaidd o dorcyfraith yma yn Aberaeron. Wrth wneud hynny roedden nhw mewn gwirionedd yn gofyn cwestiwn sylfaenol sef - **Pwy biau'r hawl i benderfynu pa fath o fywyd ac amgylchedd sydd i fod ar y tir hwn?**



Nid Cymdeithas yr Iaith yng Nghymru yw'r unig rai i holi'r cwestiwn sylfaenol yma. Mae e'n gwestiwn mae lleiafrifoedd a thlodion gorthrymedig led-led y byd yn ei ofyn.

Dyna'r cwestiwn roedd Arundhati Roy a gwerin dlawd dyffryn Narmada yn ei holi wrth brotestio'n erbyn boddi dyffryn Narmada yn India. Fe orymdeithion nhw am gan cilomedr gyda'u dwylo wedi'u clymu'n symbolaidd fel arwydd o'u protest di-drais cyn cael eu curo gan heddlu arfog, eu llusgo i loriau, eu gyrru filltiroedd i'r anialwch a'u gadael yno.

Meddai Arundhati Roy, "O fod yn frwydr dros un dyffryn fe ddechreuodd godi amheuan ynghylch system wleidyddol gyfan. Yr hyn sydd yn y fantol nawr yw natur ein democratiaeth. **Pwy biau'r tir yma?**"

Dyna i chi gwestiwn pwysig.

Ai'r bobl sy'n perthyn yno, sy wedi bod yno erioed, y bobl sy'n dibynnu ar y tir i gynnal eu diwylliant?

Nage, yw ateb y Wladwriaeth Ganolog a'r biwrocratiaid yn Botswana, India a Cheredigion. Eu hateb nhw yw mai unrhyw un ag arian biau'r tir. Y rhai sy'n fodlon talu fwy amdano biau'r tir - y cwmnïau rhyngwladol, y cwmnïau cyfalafol diegwyddor, a'r cyfoethogion estron - nhw biau'r tir ac nid y bobl fu'n byw yno erioed.

Ateb tlodion dyffryn Narmada i'r cwestiwn sylfaenol hollbwysig - "Pwy biau'r tir?" oedd y slogan "Ein rheolaeth ni yn ein pentrefi ni".

Onid yw'r slogan "Ein rheolaeth ni yn ein pentrefi ni" yr un mor berthnasol yn Nhalybont a Felinfach a Blaenannerch ag yn nyffryn Narmada?

Os na weithredir ar unwaith mae brodorion Cymraeg Ceredigion o fewn y blynyddoedd nesaf yn mynd i gael eu dadleoli a'u diwreiddio'n llwyr gan gyfoethogion estron sy'n chwennych hedd a harddwch y broydd hyn.



Ac mae hi'n fater o frys. Mae 90% o'r tai sy'n cael eu gwerthu yng Ngheredigion ar hyn o bryd yn mynd i bobl o'r tu allan i'r sir. Os na weithredwn ni ar unwaith fydd neb o'r brodorion ar ôl yn yr ardaloedd hyn. Fe fydd Goresgyniad y Llyfr Siec yn ein dileu ni o'r tir hwn yr un mor effeithiol a'r glanhau ethnig cynnar hwnnw yn ein hanes a'n dileodd ni'n llwyr o'r tir yr ochr draw i Glawdd Offa wrth greu'r wlad a elwir heddiw yn England.

Yr unig ateb yw newid yr holl gyfraith gynllunio a rhoi llais eto i bobl leol i benderfynu beth maen nhw eisiau yn eu bro. Ar y funud nid oes unrhyw lais na rheolaeth gan bobl leol hyd yn oed mewn datblygiad sy'n gallu niweidio eu hamgylchedd neu dministrio eu diwylliant.

Mae yna gamau cwbl bosibl a chwbl ymarferol y gall Cyngor Sir Ceredigion eu cymryd yfory nesaf er mwyn diogelu ei chymunedau.

Yn y lle cyntaf rhaid i swyddogion cynllunio Geredigion gydnabod bodolaeth y bobl anweledig -bodolaeth y cymunedau Cymraeg.

Mae arbenigwr ar gynllunio sef y Dr. Mark Tewdwr-Jones o Brifysgol Llundain wedi awgrymu dau gam pendant y dylid eu cymryd yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn gyntaf rhaid i Geredigion wneud **arolwg manwl o natur ieithyddol y cymunedau** o'i mewn. Dyma union eiriau Dr Mark Tewdwr-Jones yn ei dystiolaeth i'r Cynulliad - **"Yn fy marn i dylai awdurdodau cynllunio lleol gasglu cymaint o dystiolaeth ag sy'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig arolwg cyfoes o broffiliau ieithyddol o bob un o'u cymunedau, ond hefyd arolwg anghenion tai a phatrymau mudo dros gyfnod o ddeg mlynedd, y galw am dai lleol rhesymol a maint dablygiadau newydd."**

Yn ail, ac mae hyn yn fater o frys, **rhaid dynodi ardaloedd cadwraeth ar gyfer y Gymraeg.** Fe ddyfynnaf dystiolaeth Dr Mark Tewdwr-Jones i'r Cynulliad:

"Mae'n ymddangos i mi ei bod yn bosibl dynodi 'ardaloedd ieithyddol', lle byddai'r iaith... yn dod yn un o'r prif ystyriaethau i benderfynwyr polisi yn y system gynllunio." Does dim byd yn newydd yn hyn, mae neilltuo ardaloedd ieithyddol arbennig yn digwydd mewn sawl gwlad. Mae'r Gaeltacht yn yr Iwerddon yn un enghraifft.

Yn drydydd, **rhaid i'r Cyngor Sir neilltuo tir ar gyfer adeiladu gan bobl ifanc lleol.** Yr unig ffordd mae pobl ifanc lleol yn medru cael tai ar y funud yw ceisio cael darn o dir i adeiladu arno - ond does dim tir sydd ar gael yn rhesymol i bobl ifanc lleol. Pe baech chi'n mynd i fyny dyffryn Aeron i siarad â bechgyn a merched ifanc yr ardal fe fydddech chi'n darganfod fod nifer fawr ohonyn nhw sy'n rhy dlawd i brynu ty ar y farchnad agored yn ceisio cael caniatad i adeiladu ty - ac yn ddieithriad yn cael eu gwrthod gan Adran Gynllunio sy'n gwbl gibddall i anghenion y boblogaeth leol.



Mae rhaid i Gyngor Sir Ceredigion greu banciau tir - sef tir wedi'i osod naill ochr ar gyfer anghenion adeiladu y gymuned leol. Does dim byd yn rhwystro nhw i wneud hyn ar unwaith heb unrhyw newid mewn deddfwriaeth - mae'r peth yn gyfreithiol y funud hon ac yn digwydd eisoes yn yr Alban.

Rydyn ni yma heddiw felly i ofyn y cwestiwn sylfaenol - pwy biau'r hawl i ddweud pa fath o wareiddiad ac amgylchedd a fydd yma yng Ngheredigion?

Rydyn ni wrth weithredu yn sefyll ochr yn ochr a llwythi brodorol led-led y byd a gwerinoedd y gwledydd lle mae rhaib cyfalafol a chyfoeth yn dadleoli a diwreiddio pobloedd o'u cynefin.

Gaf i orffen drwy ddyfynnu Arundhati Roy

"Pwy a wyr ? Efallai mai dyna sy gan yr unfed ganrif ar hugain mewn stôr i ni - dymchwel y Mawr. Bomiau mawr, argaeau mawr, gwledydd mawr, rhyfeloedd mawr, camgymeriadau mawr. Efallai y bydd hi'n Ganrif y Bychan. Efallai o fodfedd i fodfedd, o fom i fom, o Argae i Argae. Fe allen ni ddechrau yn Nyffryn Narmada."

Fe allwn ni ddechrau yma yn Nyffryn Aeron Rydyn yma felly er mwyn gwneud protest symbolaidd o gefnogaeth i safiad Dafydd ac Angharad ac i dynnu sylw at yr angen am bolisiau cynllunio fydd yn amddiffyn y cymunedau lleol.

Emyr Llywelyn, Rali Glyndwr, Medi 14^{eg} 2002